



Strategaeth Ymarferion sy'n **Canolbwyntio ar yr Unigolyn**

Cynnwys:

1. Cyflwyniad
2. Pwrpas y strategaeth hon
3. Datblygiad y strategaeth hon
4. Y Weledigaeth
5. Egwyddorion craidd Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn
6. Defnyddio Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn o fewn gwasanaethau
7. Materion strategol allweddol
8. Partneriaid allweddol wrth gyflwyno'r strategaeth hon
9. Gofynion allweddol er mwyn cyflwyno'r strategaeth hon

Cyflwyniad

Mae Gofal Cymdeithasol ac Addysg Conwy eisiau cydweithio i ddatblygu Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn. Mae'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Drafft a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yng Nghymru yn pwysleisio y bydd angen i wasanaethau gydweithio yn hyblyg i sicrhau bod plant, pobl ifanc, oedolion, eu teuluoedd a gofalwyr yn cael cefnogaeth gyson wedi ei drefnu yn dda sy'n eu helpu i gyflawni deilliannau cadarnhaol. Bydd cydweithio mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn:

- Gwella mynediad at ddysgu, gofal a chefnogaeth, gan sicrhau bod gan bobl mwy o ddweud a rheolaeth.
- Gwella deilliannau i bobl y gweithiwn gyda hwy.
- Darparu dysgu, gofal a chefnogaeth cyd-drefnedig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.
- Gwella tryloywder yn y systemau.


Yn ddiweddar sefydlwyd grŵp llywio i oruchwylio a chyfeirio datblygiad Ymarferion sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yng Nghonwy. Ar hyn o bryd mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o: Gofal Cymdeithasol, Seicoleg Addysg, Therapi Galwedigaethol, Cyswllt Conwy, staff a disgyblion Ysgol y Gogarth, Partneriaeth Pobl Conwy a defnyddwyr gwasanaeth eraill. Rydym yn ymwybodol y gall y grŵp sy'n bresennol newid yn dibynnu ar yr agenda ar gyfer amrywiol gyfarfodydd. Mae cofnodion y cyfarfodydd yn cael eu rhannu ar lefel gorfforaethol (COG 4).

Pwrpas y strategaeth hon

Pwrpas y strategaeth hon yw darparu cyfeiriad strategol clir o ran dyfodol dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghonwy. Mae'n darparu trosolwg o'r egwyddorion craidd sy'n sail i ymarferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn amlinellu gweledigaeth Conwy ar gyfer y dyfodol. Mae'r strategaeth hon hefyd yn nodi: materion allweddol sydd angen eu trin; y partneriaid allweddol sy'n hybu'r weledigaeth; a'r gofynion o ran gweithredu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Datblygiad y strategaeth

Datblygwyd y strategaeth hon yn ôl profiad y grŵp o'r hyn a weithiodd yn dda yn y gorffennol a beth sydd heb. Mae'r grŵp wedi cydweithio i adnabod dulliau o ymarfer gorau. Cyflawnwyd hyn trwy ddefnyddio adnoddau Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn i gyd-gynhyrchu LLWYBR o sut i gyflawni ein gweledigaeth.



Y Weledigaeth

- Bydd Ymarferion sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn wedi eu gwreiddio mewn ymarfer cyfundrefnol.
- Bydd cydweithio yn cryfhau: bydd Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn dod a'r holl bobl sy'n rhan o fywyd yr unigolyn at ei gilydd, i gydweithio i greu newid cadarnhaol ar eu cyfer.
- Bydd pobl yn cydweithio i greu cynllun ystyrlon ar gyfer yr unigolyn. Bydd hwn yn un cynllun a fydd yn lleihau dyblygu ac ail adrodd a chyflawni deilliannau ystyrlon sy'n unigryw i'r unigolyn.
- Bydd Dull sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yng Nghonwy yn helpu pobl i helpu eu hunain, bydd yn canolbwyntio ar alluoedd a chryfderau pobl a gweithio gyda hwy i gyflawni eu deilliannau ystyrlon unigol.
- Bydd Dulliau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn grymuso pobl i lunio, cyflwyno ac arfarnu gwasanaethau er mwyn iddynt ddod yn gyfrifoldeb rhanedig rhwng dinasyddion, awdurdodau lleol a'u partneriaid.

Egwyddorion Craidd sy'n Sail i Ymarferion sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

“ Person-centred planning is a strong planning process that puts the person at the centre and deliberately shifts power towards them and can help reclaim some of the freedom which most of us take for granted” (Parley 2001).

Mae plant, pobl ifanc, oedolion a'u teuluoedd:

- Yng nghanol holl brosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau ac yn teimlo bod eu cyfraniadau yn cael eu gwerthfawrogi.
- Yn cael eu trin gyda pharch bob amser gan ymarferwyr sy'n sensitif i'r teulu, diwylliant, amrywioldeb ethnig a chymdeithasol-economaidd.

- Yn cael gwybodaeth amserol, ddiuedd a chyflawn a ellir ei deall ac sy'n cefnogi eu gallu i wneud dewisiadau deallus.
- Yn cael cefnogaeth, adnoddau a gwasanaethau hyblyg, ymatebol ac unigol.

Mae'r tabl canlynol yn cymharu agweddai ar fodolau traddodiadol o ddarparu gwasanaeth gyda dulliau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (yn seiliedig ar y Model Cymdeithasol o Anabled).

Medical model thinking	Social model thinking
Child is faulty	Child is valued
Diagnosis	Strengths and needs defined by self and others
Labelling	Identify barriers and develop solutions
Impairment becomes focus of attention	Outcome-based programme designed
Assessment, monitoring, programmes of therapy imposed	Resources are made available to ordinary services
Segregation and alternative services	Training for parents and professionals
Ordinary needs put on hold	Relationships nurtured
Re-entry if normal enough OR permanent exclusion	Diversity welcomed, child is included
Society remains unchanged	Society evolves

(Adapted from Micheline Mason 1994, R. Rieser 2000)

Defnyddio Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn o fewn Gwasanaethau

Mae cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn broses barhaus o wrando a dysgu am beth sy'n bwysig i (y pethau sy'n bwysig iddyn nhw a dod ag ansawdd bywyd) ac i'r unigolyn (y pethau y maent eu hangen i fod yn iach, yn ddiogel ac i ddysgu), yn awr ac yn y dyfodol gyda theulu, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol yn cydweithio i wneud i hyn ddigwydd. Mae cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gweithio orau pan ddefnyddir o fewn sefydliadau sydd wedi gwreiddio diwylliant sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'n fwy na dim ond creu cynlluniau.

Mae adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn defnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i edrych ar beth sy'n digwydd o safbwynt yr unigolyn a phobl eraill. Mae'r adolygiad yn edrych ar beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio, beth sy'n bwysig i'r unigolyn a chytuno ar ddeilliannau ar gyfer newid.

Mae'r pwyslais ar ddeilliannau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn hytrach na rhai a arweinir gan wasanaeth.

Defnyddir adnoddau cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gael gwybodaeth sy'n bwydo i'r cynllun gofal a chefnogaeth neu addysgol ar gyfer unigolyn. Mae nifer o wahanol adnoddau y gellir eu defnyddio h.y. y cylch perthynas, siart gyfathrebu. Mae'r adnoddau hyn yn caniatáu i sgysiau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gael eu cynnal. Y sgwrs sydd yn bwysig ac mae angen i'r rhai sy'n defnyddio'r adnoddau ddeall sut i ganolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn iddynt fod yn effeithiol.

Materion strategol allweddol

Mae'r symudiad i bersonoli darpariaeth gwasanaeth yn golygu newid mewn diwylliant cyfundrefnol. Bydd staff a defnyddwyr gwasanaeth angen lefelau gwahanol o gefnogaeth i adnabod ac ymwneud yn gadarnhaol â'r broses o newid.

Mae angen i Ymarferion sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn gael eu gwreiddio mewn cyfathrebu arferol, dyddiol ac nid i gael eu gweld fel 'set o adnoddau' ar wahân neu ffordd o weithio mewn amgylchiadau penodol (megis cyfarfodydd adolygu). Mae'n bwysig fod templedi dogfennaeth safonedig yn annog dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, fodd bynnag, y ffordd mae cyfathrebu a chynllunio yn cael eu hwyluso gan staff gwasanaethau cymdeithasol ac addysg sy'n allweddol i'r newid i ddod yn wasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Bydd monitro ansawdd y personoli yn ganolog i'w weithrediad a bydd angen iddo fod trwy amrywiol ffyrdd, gan gynnwys: defnyddwyr gwasanaeth; gweithwyr proffesiynol; a hunanasesiad.

Mae angen i hyfforddiant fod o ansawdd uchel, yn barhaus ac ar gael i ddechreuwy'r newydd ar draws y gwasanaeth. Bydd angen lefelau gwahanol o hyfforddiant a systemau cefnogaeth parhaus, o lefel strategol i'r rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda chleientiaid.

Mae cydweithio rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg angen protocolau cefnogol sy'n bodloni blaenoriaethau'r ddau wasanaeth, y defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Dylai hyn fod yn gysylltiedig â'r rhaglen waith fwy a sefydlir i integreiddio Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg ymhellach (fel y disgrifir yng Nghylchlythyr Gofal Cymdeithasol ac Addysg, rhifyn 1).

Mae'r gofynion cyfreithiol a'r cyngor a roddir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014), y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd ar ddod a'u Codau Ymarfer perthnasol yn gwneud y defnydd o ymarferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ofynnol a bydd angen glynu wrthynt wrth ddatblygu'r gwasanaeth ac unrhyw ffyrdd newydd o weithio.

Partneriaid allweddol wrth gyflwyno'r strategaeth hon

Yn fras, mae partneriaid allweddol yn cynnwys Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Addysg, ysgolion a sefydliadau addysgol eraill, y trydydd sector, grwpiau iechyd a gweithredol perthnasol, megis Bwrdd Partneriaeth Pobl. Y rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yw'r allwedd i gyflwyno ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Cynllun gweithredu

Lluniwyd y deilliannau a'r gweithredoedd canlynol gan y grŵp llywio yn defnyddio fersiwn sefydliadol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o'r adnodd cynllunio 'LLWYBR'. Maent yn anelu i'n symud yn agosach at weledigaeth y strategaeth a ddisgrifir uchod. Anelwn i gwblhau'r gweithredoedd erbyn Gorffennaf 2017 neu ynghynt.



(Ffotograff LLWYBR Grŵp Llywio CCU: hwyluswyd a chofnodwyd trwy garedigrwydd Cyswllt Conwy, Mehefin 2016).